

IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU

DYDD GWENER, 11 HYDREF 2019

Yn Cynghorydd Mackie(Cadeirydd)
bressenol: Cynghorwyr Derbyshire a/ac Lancaster

14 : DATGANIADAU O FUDDIANT

Dim un wedi'u derbyn.

15 : CAIS AM ROI TRWYDDED SAFLE - IVY COLLECTION, YR AES

CAIS AM ROI TRWYDDED SAFLE - IVY COLLECTION, YR AES

Ymgeiswyr: Troia (UK) Restaurants Ltd a gynrychiolir gan Stephen Walsh

Awdurdodau Cyfrifol: Tony Bowley, Heddlu De Cymru
John Marchant, Heddlu De Cymru
Rhys Morgan,
Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir

Derbyniwyd cais am roi trwydded safle oddi wrth Troia (UK) Restaurants Ltd mewn perthynas â'r Ivy Collection, Uned LG69/70, Canolfan Dewi Sant, 43 yr Aes, Caerdydd, CF10 1GA.

Mae'r ymgeisydd wedi gwneud cais am y canlynol:

(1) Mewn perthynas â'r gweithgareddau trwyddadwy canlynol:

(i) gwerthu alcohol i'w yfed ar y safle ac oddi arno (ii) darparu adloniant rheoleiddiedig ar ffurf cerddoriaeth wedi'i recordio (y tu mewn). (iii) darparu lluniaeth hwyr y nos (dan do ac awyr agored

(2) Disgrifiad o'r safle (fel y nodwyd gan yr ymgeisydd):

"Mae'n safle bwyd sy'n cynnig bwyd a gwinoedd o ansawdd uchel."

(3) Oni nodir fel arall gall y safle fod ar agor i'r cyhoedd yn ystod yr oriau canlynol ac am unrhyw oriau sy'n ganlyniadol i'r amseriadau ansafonol:

Dydd Llun i ddydd Sul: 8:00am i 1:30am

Amserau Ansafonol: Nos Galan: Tan gychwyn yr oriau a ganiateir ar ddydd y flwyddyn newydd

(4) I ddarparu gweithgareddau trwyddadwy yn ystod yr oriau canlynol:

(i) Gwerthu alcohol i'w yfed ar y safle ac oddi arno: Dydd Llun i ddydd Sul: 09:00am i 1:00am

Amserau Ansafonol: Nos Galan: Tan gychwyn yr oriau a ganiateir ar ddydd y flwyddyn newydd

(ii) Darparu adloniant rheoleiddiedig ar ffurf cerddoriaeth wedi'i recordio (dan do):
Dydd Llun i ddydd Sul: 8:00am i 1:00am

Amserau Ansafonol: Nos Galan: Tan gychwyn yr oriau a ganiateir ar ddydd y flwyddyn newydd

(iii) Darparu lluniaeth hwyr y nos (dan do ac awyr agored)

Dydd Llun i ddydd Sul: 11:00pm i 1:00am

Amserau Ansafonol: Nos Galan: Tan gychwyn yr oriau a ganiateir ar ddydd y flwyddyn newydd

Sylwadau'r Awdurdod Cyfrifol

Anerchwyd yr Is-bwyllgor gan Mr Tony Bowley. Dywedodd mai hwn oedd yr ail gais, roedd trwydded eisoes wedi'i rhoi ar gyfer yr hen eiddo Moss Bros yn 18 yr Aes, gydag amodau. Dywedodd fod yr ymgeisydd wedi penderfynu peidio â gweithredu yno pan oedd y safle hwn ar gael. Eglurodd fod yr heddlu wedi gwrthwynebu yn seiliedig ar atal trosedd ac anhrefn, niwsans cyhoeddus ac amddiffyn plant rhag niwed. Roedd y cais yn y parth dirlawnder, mae gan y Cyngor ei bolisi ei hun ar hyn wedi'i ategu gan ystadegau'r heddlu ar droseddau sy'n gysylltiedig ag alcohol, sy'n gwaethygu'n ddiweddarach yn y nos.

Roedd yr Is-bwyllgor wedi derbyn y gwrthwynebiad swyddogol gan yr heddlu, a oedd hefyd yn amlinellu 5 amod. Nododd Mr Bowley fod y cais o fewn oriau craidd y polisi ond roedd yn pryderu am y bar mawr ar y llawr cyntaf, a dyna pam yr hoffai'r heddlu weld alcohol yn cael ei werthu dim ond yn ategol i bryd bwyd sylweddol, ac nad oeddent am gael bar tu allan hefyd. Nododd Mr Bowley y gymhareb staff drws â 1:100. Darllenwyd y drwydded flaenorol er budd yr Is-bwyllgor. Roedd Mr Bowley o'r farn bod hwn yn gais newydd sy'n ceisio am awr yn ychwanegol yn y bore ac awr yn ychwanegol yn ystod yr awr derfyn, o'i gymharu â'r drwydded flaenorol a roddwyd. Esboniodd pe bai'r is-bwyllgor yn bwriadu rhoi'r cais, yna byddai'r heddlu'n disgwyl y drwydded flaenorol ar gyfer Uned LG69/70, Canolfan Dewi Sant, 43 yr Aes, a hefyd y drwydded y cytunwyd arni'n ddiweddar ar gyfer 18 yr Aes gael eu hildio.

Anerchwyd yr Is-bwyllgor gan Rhys Morgan. Dywedodd mai ail gais oedd hwn a'i fod yn dod o fewn y Parth Effaith Gronnus. Esboniodd mai prif wrthwynebiad yr awdurdod oedd gwerthu alcohol nad oedd yn ategol i bryd bwyd sylweddol. Roedd yr Awdurdod wedi gwneud rhai consesiynau o ran y manau croeslinell yn y cynllun ar y llawr gwaelod lle nad oedd alcohol yn ategol i bryd bwyd, ond roedd y cynllun bellach wedi'i amlinellu fel ardal gyfan y llawr cyntaf gan ei wneud, yn y bôn, yn far, a fyddai'n ei roi yng Nghategori Coch y Polisi. Ystyriai ei fod yn mynd yn groes i natur, ysbryd a ffydd y cais a ganiatawyd yn flaenorol. Roedd yr ymgeisydd wedi cael cyfle i leihau'r ardal a oedd wedi'i chroeslinellu ar y cynllun, felly byddai gwrthwynebiad yr Awdurdod wedi'i oresgyn, ond nid yw hyn wedi'i wneud. Dywedodd pe bai'r is-bwyllgor yn dymuno gwyro o'r polisi, y byddai'n disgwyl i'r cais fod yn un eithriadol.

Holodd yr Aelodau am y gymhareb o 70/30% o fyrddau a chadeiriau, ac fe'u cynghorwyd bod hyn yn cyfeirio at y safle cyfan.

Sylwadau'r Ymgeiswyr

Anerchwyd yr Is-bwyllgor gan Stephen Walsh. Rhoddwyd manylion i'r Aelodau am fodel busnes yr ymgeisydd, gan ailadrodd bod yr awyrgylch yn un o fwyty nid bar, caiff cwsmeriaid eu cwrdd wrth y drws ac yn cael bwrdd, a byddai bwydlen ar bob bwrdd. Eglurodd Mr Walsh fod y safle wedi cael trwydded anghyfnygedig yn flaenorol, heb unrhyw amodau atodol. Eglurodd maint troedfedd sgwâr y safle a bod y cais am drwydded newydd yn lleihau'r lle trwyddedig. Esboniodd hefyd fod y drwydded a roddwyd yn ddiweddar yn 18 yr Aes ar gyfer mangre a oedd heb ei thrwyddedu'n flaenorol a bod y cais wedi bodloni'r Is-bwyllgor hwnnw gyda mesurau lliniaru fel eithriad i'r polisi. Dywedodd Mr Walsh y byddai'r ymgeisydd yn hapus i ildio'r 2 drwydded fel yr awgrymodd yr heddlu.

Rhoddodd Mr Walsh gefndir yr ymgeisydd a nifer y bwytai o amgylch y DU ac lwerddon i aelodau'r Is-bwyllgor. Hwn fyddai'r Ivy Collection cyntaf yng Nghymru. Eglurodd Mr Walsh y byddai'n brofiad bwyta dosbarth cyntaf gyda staff profiadol iawn. Eglurodd yr angen am hyblygrwydd ardal anghyfnygedig, er enghraifft o amgylch y bar, os nad oedd aelod o barti'n dymuno bwyta, neu ar gyfer derbyniadau derbyniad canapés. Eglurodd fod nifer o'r Ivy Collections wedi'u lleoli mewn Parthau Effaith Gronnus, a bod gan bob un ohonynt y lefel hon o hyblygrwydd ac nad oedd unrhyw faterion na heriau wedi codi.

Dywedodd Mr Walsh y byddai'r ymgeisydd yn fodlon cytuno ar rifau 2-5 o amodau'r Heddlu, gyda'r unig anghytuno o ran amod 1 o amgylch yr ardaloedd wedi'u croeslinellu ar y cynllun.

Cyflwynodd Mr Walsh Michael Clark a fyddai'n Rheolwr Cyffredinol ac mae ganddo brofiad o weithio mewn bwytai Sêr Michelin, yng Ngwesty'r Savoy a bwytai Conran; byddai'n goruchwyllo'r bwyty. Byddai'r bwyty yn cyflogi 130 o staff gyda chegin fasnach fawr wedi'i lleoli ar yr ail lawr.

Dangosodd Mr Walsh aelodau'r Is-bwyllgor lluniau digidol a gynhyrchwyd gan gyfrifiadur o'r cynllun arfaethedig a'r tu allan, a bwydlen enghreifftiol.

Dywedodd Mr Walsh ei fod yn deall y pryderon yn llwyr ac yn derbyn y baich gwrthdro os yw'r polisi'n cael ei roi ar waith ond roedd o'r farn bod hyn yn cael ei leddfu gan natur y gwaith ac y byddai'r arwynebedd trwyddedig yn y parth dirlawnder yn cael ei leihau gan y cais hwn ac ildio'r 2 drwydded arall.

Gofynnodd Mr Bowley pam nad oedd y drwydded anghyfnygedig flaenorol ar gyfer y safle hwn wedi cael ei throsglwyddo ac awgrymwyd bod yr awr derfyn yn rhy gynnar. Dywedodd Mr Walsh bod rhaid newid y cynllun, roedd yn safle gwell, yn cael ei gydnabod fel bwyty ac nid oedd ar gael pan wnaed y cais cyntaf.

Gofynnodd yr Aelodau a oedd rhywun yn gallu cerdded i mewn am hanner nos a chael diod yn unig ac fe'u cynghorwyd y byddai hynny yn ôl disgrisiwn y staff, yn bwysicaf oll byddai angen diogelu ansawdd a naws y ciniäwr; eglurwyd y byddai'r byrddau'n cael eu defnyddio am 3 eisteddiad y noson ac y byddai gan giniäwr opsiwn o gael gwydraid o win wrth y bar ar ôl eu pryd yn hytrach na chael cais i adael am yr eisteddiad nesaf. Roedd yn annhebygol y byddai pobl yn cerdded i mewn dim ond am ddiodydd, oherwydd y prisiau. Nid dyna beth oedd yr Ivy am ei gael, a gallai staff drws a staff eraill ymdopi â hyn. Byddai'r cwsmeriaid yn cael bwrdd neu stôl wrth y

bar, ni fyddai neb yn yfed wrth sefyll oni bai ei fod yn dderbyniad canapés. Roedd yr ymgeisydd yn hapus i ychwanegu amod na allai neb fynd i mewn i'r adeilad ar ôl hanner nos dim ond i'w yfed.

Trafododd aelodau'r capasiti o 244 yn eistedd ac fe'u cynghorwyd bod y seddi allanol ar gyfer bwyta.

Bu'r Aelodau'n trafod yr awr derfyn ddiweddarach a dywedwyd wrthynt ei bod yn caniatáu ar gyfer bwyta ar ôl mynd i'r theatr.

I grynhoi

Ailadroddodd Mr Bowley fod gwrthwynebiad Heddlu De Cymru yn seiliedig ar yr amcanion trwyddedu yn unig; mae'r ymgeisydd wedi llwyddo i gael trwydded ym mis Gorffennaf, ond erbyn hyn mae'n dymuno newid yr awr derfyn ac agor awr ynghynt; mae'n deall y gostyngiad mewn arwynebedd trwyddedig, ond roedd o'r farn y byddai'r estyniad mewn oriau yn gwneud iawn am hynny. Datganodd fod y cais yn cael ei ganiatáu byddai'n ychwanegu 2 far gydag awr derfyn llawer diweddarach yn y Parth Effaith Gronnus.

Dywedodd Mr Morgan nad oedd unrhyw amheuaeth bod yr ymgeisydd wedi cymryd camau ychwanegol drwy ildio ar yr amod mynediad i ganol nos ond y dylai'r polisi barhau i fod yn gymwys, a bod angen ystyried yr ardal yn ei chyfanrwydd, nid dim ond y safle. Dywedodd, gan ystyried rhinweddau'r cais, fod angen i'r Is-bwyllgor fod yn fodlon y gallai oresgyn y dybiaeth o ran gwrthbrofi pe bai'n gywro oddi wrth y polisi a gofynnodd i'r Is-bwyllgor ystyried yr ardal wedi'i chroeslinellu.

Dywedodd Mr Walsh fod y cais yma ar gyfer safle da presennol a oedd yn lletya'n dda ar gyfer cwsmeriaid. Roedd y bwyty arfaethedig o arddull ac ansawdd rhagorol. Roedd yn hyderus na fyddai unrhyw effaith negyddol ar yr amcanion trwyddedu. Mae'r oriau o fewn oriau craidd y Cyngor ac roedd y rhan fwyaf o'r amodau wedi eu derbyn. Mae pob rhan o'r safle nad yw wedi'u croeslinellu ar y cynllun yn syrthio'n gyfan gwbl o fewn y polisi felly ni fyddai Effaith Gronnus yn berthnasol. Byddai'r ardal heb ei chroeslinellu yn lleihau'r ardal drwyddedig yn yr ardal Effaith Gronnus.

PENDERFYNWYD: Bod yr Is-bwyllgor, ar ôl ystyried yr holl wybodaeth, ac yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003, Canllawiau Adran 182 a Datganiad Polisi Trwyddedu'r Awdurdod Trwyddedu ei hun, YN CANIATÁU y cais, yn ddibynnol ar ychwanegu amodau 2-5 yr Heddlu fel y nodir yn Atodiad D yr adroddiad ac amodau ychwanegol - gan ildio trwyddedau 18 yr Aes a'r drwydded flaenorol ar gyfer 43 yr Aes a dim derbyn cwsmeriaid ar ôl hanner nos ar gyfer yfed alcohol oni bai ei fod ategol i bryd bwyd bwrdd sylweddol.

16 : CAIS I GANIATÁU TRWYDDED MANGRE - STORY, HEOL Y BRODYR LLWYDION

CAIS I GANIATÁU TRWYDDED MANGRE - STORY, HEOL Y BRODYR LLWYDION

Ymgeiswyr: Q I G Investment Ltd wedi'i gynrychioli gan Matthew Phipps

Awdurdodau Cyfrifol: John Crowther, Heddlu De Cymru

Rhys Morgan,
Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir

Derbyniwyd cais am roi trwydded safle mewn perthynas â Story, 2 Tŷ Grosvenor, Heol y Brodyr Llwydion, Caerdydd, CF10 3AD.

Mae'r ymgeisydd wedi gwneud cais am y canlynol:

(1) Mewn perthynas â'r gweithgareddau trwyddadwy canlynol:

(i) Gwerthu alcohol i'w yfed ar y safle ac oddi arno (ii) darparu adloniant wedi'i reoleiddio ar ffurf ffilmiau (dan do), chwaraeon dan do, cerddoriaeth fyw (dan do), cerddoriaeth wedi'i recordio (dan do), perfformiad dawnns (dan do). (iii) darparu lluniaeth hwyr y nos (dan do)

(2) Disgrifiad o'r Safle (fel y nodwyd gan yr ymgeisydd):

Clwb Nos

(3) Oni nodir fel arall gall y safle fod ar agor i'r cyhoedd yn ystod yr oriau canlynol ac am unrhyw oriau sy'n ganlyniadol i'r amseriadau ansafonol:

Dydd Llun i ddydd Sul: 10:00am i 4:30am

Amserau Ansafonol: Nos Galan: Tan gychwyn yr oriau a ganiateir ar ddydd y flwyddyn newydd

(4) I ddarparu gweithgareddau trwyddadwy yn ystod yr oriau canlynol:

(i) gwerthu alcohol drwy fanwerthu i'w yfed ar y safle ac oddi arno:

Dydd Llun i ddydd Sul: 10:00am i 4:00am Amserau Ansafonol: Nos Galan: Tan gychwyn yr oriau a ganiateir ar ddydd y flwyddyn newydd

(ii) darparu adloniant wedi'i reoleiddio ar ffurf ffilmiau (dan do), chwaraeon dan do, cerddoriaeth fyw (dan do), cerddoriaeth wedi'i recordio (dan do), perfformiad dawnns (dan do):

Dydd Llun i ddydd Sul: 10:00am i 4:00am Amserau Ansafonol: Nos Galan: Tan gychwyn yr oriau a ganiateir ar ddydd y flwyddyn newydd

(iii) darparu lluniaeth hwyr y nos (dan do)

Dydd Llun i ddydd Sul: 11:00pm i 4:00am Amserau Ansafonol: Nos Galan: 11:00pm i 5:00am

Sylwadau'r Awdurdod Cyfrifol

Anerchwyd yr is-bwyllgor gan Mr John Crowther. Esboniodd fod y safle eisoes wedi'i drwyddedu, bod y cais yn cael ei ddarparu ar gyfer bar teras to yn y dyfodol. Nododd gan fod y safle yn y Parth Effaith Gronnus a'r dybiaeth gwrthatebol oedd y byddai unrhyw gais yn cael ei wrthod neu'n amodol ar gyfyngiadau. Eglurodd ei fod wedi cwrdd â'r prif reolwr ardal a'r Goruchwyliwr Adeilad Dynodedig a'i fod wedi bod yn gohebu â Mr Phipps ac wedi trafod rhai gwelliannau. Pe bai'r rhain yn cael eu rhoi fel amodau, yna'r unig wrthwynebiad gan Heddlu De Cymru fyddai ar sail y Parth Effaith Gronnus.

Anerchodd Mr Rhys Morgan yr Is-bwyllgor a nodi'r amodau sylweddol yn yr amserlen weithredu. Tynnodd sylw Aelodau'r Is-bwyllgor at deras y to a'r posibilrwydd o niwsans cyhoeddus. Dywedodd fod y safle, fel clwb nos, yng Nghategori Coch Polisi'r Cyngor felly mae rhagdybiaeth gwrthatebol yn berthnasol a phe bai'r Is-bwyllgor yn gwyrto o'r polisi roedd angen iddo fod yn fodlon na fyddai unrhyw effaith negyddol ar yr amcanion trwyddedu; bod yr ardal yn ei chyfanrwydd yn cael ei hystyried a bod y cais yn ddigonol i oresgyn y rhagdybiaeth gwrthatebol.

Sylwadau'r Ymgeiswyr

Anerchwyd yr Is-bwyllgor gan Matthew Phipps. Rhoddwyd manylion i'r Aelodau am fodel busnes yr ymgeisydd. Ni chynigiwyd unrhyw newidiadau i'r oriau busnes. Derbyniodd fod lleoliad y safle a'i fod yng Nghategori Coch y Polisi yn golygu y byddai'r Heddlu a'r Awdurdod Lleol yn gwrthwynebu.

Amlinellodd y ffordd y mae'r safle eisoes yn gweithredu – gan weithredu ar draws pob llawr. Dyma oedd Clwb Nos Glam ers 10 mlynedd, a thua 18 mis yn ôl caffaeliwyd y safle cyfagos, cyn-safle Barley and Rye gan y perchnogion. Caeodd Clwb Nos Glam wedyn, a chyflwynwyd cais am drwydded i gynnwys yr hen Barley and Rye ac ailenwyd y clwb nos fel Story, a agorodd ym mis Medi. Nododd fod y tîm rheoli yn gadarn a bod y safle'n cael ei fasnachu i safon eithriadol. Roedd Peter Crowe wedi bod yn Oruchwyliwr Adeilad Dynodedig o 2008 – 2015 ac roedd yn dychwelyd i'r safle. Jonathan Green oedd y rheolwr gweithredol ar gyfer yr uned hon ac unedau eraill.

Nododd Mr Phipps fod yr amcanion polisi yn herio'r ymgeisydd i oresgyn y rhagdybiaeth ac mai dim ond un a oedd yn gwneud hyn – ac amlinellwyd hyn yn yr amserlen weithredu gynhwysfawr iawn gan gynnwys 48 o amodau arfaethedig a 2 gan Heddlu De Cymru sy'n wedi'u cytuno. Cafwyd trafodaeth helaeth i sicrhau cais da hyd yn oed cyn i'r cais gael ei gyflwyno.

Yn gryno, eglurodd Mr Phipps fod y cais, yn ei hanfod, ar gyfer ychwanegu bar ar y teras to sydd eisoes wedi'i drwyddedu. Mae'r cais yn dangos cymhareb o 1:75 ar gyfer staff drws ac amlinellwyd y paragraffau yn yr Atodlen weithredu sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r polisi ynghyd ag amodau teras y to.

Ystyriai fod hwn yn gais cynhwysfawr da.

I grynhoi

Nododd Mr Rhys Morgan fod ceisiadau'n aml yn rhai nad ydynt yn gwneud y trothwy ond bod cais da yn cael ei wrthbrofi a'i ystyried ar sail teilyngdod. Gall rhai amodau ar y cais hwn liniaru pryderon, ond pwysleisiodd fod yr is-bwyllgor yn ystyried yr ardal yn ei chyfanrwydd. Eglurodd mai lle'r Pwyllgor oedd penderfynu, mae'r Polisi a'r rhagdybiaethau yno, os yw'r Pwyllgor yn teimlo bod yr amodau'n ddigonol i oresgyn y rhagdybiaeth, mae'n rhaid iddo ystyried bod y cais yn eithriadol.

Trafododd yr Aelodau gapasiti teras y to ac fe'u cynghorwyd ei fod yn 230. Sicrhawyd yr Aelodau na fyddai unrhyw wydr yn cael ei ganiatáu ar y to, byddai gwin yn cael ei dywallt i gwpanau plastig a byddai'r bwcedi rhew yn rhai plastig.

Bu'r Aelodau'n trafod aflonyddu posibl ac fe'u cynghorwyd bod rhyw fath o wal o amgylch y teras ac nid yw hyn wedi bod yn broblem hyd yma.

Trafododd yr Aelodau leoliadau'r grisiau tân/gwacáu.

PENDERFYNWYD: Bod yr Is-bwyllgor, ar ôl ystyried yr holl wybodaeth, ac yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003, Canllawiau Adran 182 a Datganiad Polisi Trwyddedu'r Awdurdod Trwyddedu ei hun, YN CANIATÁU y drwydded safle yn ddibynnol ar yr amod y cytunwyd arno yn Atodiad 1 y Band Atodiad amodau a amlinellwyd gan Heddlu De Cymru.

17 : CAIS I AMRYWIO TRWYDDED MANGRE - GWESTY'R ANGEL, STRYD Y CASTELL

Gohiriwyd y cais.

18 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Dim un wedi'u derbyn.

Daeth y cyfarfod i ben am 1.00 pm